



UMPA

Cyfarfod Bwrdd Ymddiriedolwyr

22ain o Fawrth 2013

Ystafell Bwyllgor

Yn bresennol

Ben Meakin (BM) –Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
Carys Thomas (CT) – Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwraig
Jessica Leigh (JL) – Swyddog Addysg UMPA ac Ymddiriedolwraig
Ioan Evans (IE) – Swyddog Gweithgareddau UMPA ac Ymddiriedolwr
Laura Dickens (LD) – Swyddog Cymorth Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwraig
Josh James (JJ) – Ymddiriedolwr Israddedig UMPA
Rhys Dart (RD) – Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Christopher Lloyd-Jones (CLJ)– Ymddiriedolwr Ôl-radd UMPA
John Glasby (JG) – Prif Swyddog Gweithredol Interim UMPA
Emyr Phillips (EP)– Interim Cyllid UMPA
Stephen Harrison (SH) – Interim Cyllid UMPA

Yn gwasanaethu yn y cyfarfod

Anmarie Evans – Clerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr UMPA

1. Ymddiheuriadau am fod yn absennol

Stephen Meachem.

2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 4ydd o Chwefror 2013

Cymeradwywyd y cofnodion yn gofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

4. Y Cadeirydd yn rhoi briff

Croesawodd BM pawb i'r cyfarfod a chyflwyno'r Ymddiriedolwr newydd etholedig, Christopher Lloyd-Jones. Eglurodd hefyd i Emyr Phillips, a gafodd ei fenthyg gan y Brifysgol hyd at fis Gorffennaf 2013 er mwyn cyflawni'r swyddogaeth gyllid, dderbyn swydd newydd yn IBERS ac fe ddiolchodd iddo am ei gyfrannaid. Yna, fe gyflwynodd Stephen Harrison sydd wedi cymryd lle Emyr ar gyfer rôl yr interim Cyllid.

Eglurodd BM i'r grŵp fod Rheolwr Gwasanaethau Aelodaeth newydd wedi cael ei benodi, sef Andy Morwood, yn ogystal â Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu, Jamie Barker, i gyd yn rhan o'r strwythr symud ymlaen.

5. Adroddiad y Swyddogion

Adroddodd BM ei fod wedi bod yn brysur â'r Cynllun Strategol, drwy gydweithio â'r Tîm Marchnata i drefu'r Ddawns Fai a helpu gyda'r Prosiectau/Ymgyrchoedd Gwyrdd.

Eglurodd JL mai dyma'r wythnos prysuraf iddi weld ers cychwyn yn ei rôl. Roedd rhaid iddi fynychu nifer o gyfarfodydd ynghyd â chefnogi apeliadau academaidd yr un wythnos, a brofodd yn her.

Dywedodd LD wrth y grŵp ei bod hi, ar wahân i'r etholiadau, wedi bod yn brysur â materion Llety a materion Iechyd Meddwl gan gynnwys llunio adroddiad ar y ddarpariaeth gynghori. Dywedodd LD wrth y grŵp ei bod wedi derbyn gwobr gan yr UCM am ei Harolwg Tai.

Mae CT wedi bod yn brysur â'r Eisteddfod Rhyng-gol, Gŵyl Dewi Sant a Rhag sy'n cynnwys 9 diwrnod cyfan o ddigwyddiadau. Dywedodd yr hoffai ddiolch i'r cyfieithwyr staff-myfyrwyr am eu bod wedi gweithio'n galed dros yr wythnosau diwethaf er mwyn sicrhau bod pob cyfieithiad yn cael ei gwblhau.

Mae IE wedi bod yn brysur â'r Etholiadau, y bencampwriaeth Varsity a'r Uwch dimau, felly y mae wedi bod yn gyfnod prysur. Rhoddwyd pob darn o fwyd a adawyd ar ôl gan yr Uwch dimau i Gymdeithas Gofal Ceredigion. Adroddodd IE bod digwyddiad difrifol wedi digwydd â'r Tîm Rygbi. Eglurodd i'r grŵp fod y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr wedi delio â'r mater a bod yr Heddlu ynghlwm.

6. Y newyddion diweddaraf ynglŷn â'r Etholiadau (Adroddiad gan Emily Cannon/ UCM Cymru)

Cynhaliwyd ymchwiliad gan Emily i'r Broses Etholiadol ar ôl derbyn nifer o gwynion ffurfiol. Fe wnaethpwyd yr awgrymiadau canlynol:

- Dylai'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau ac aelod o'r pwyllgor etholiadau fynychu hyfforddiant – cynhaliwyd diwgwyddiad undydd gan UCM a oedd wedi'i dargedu tuag at Ddirprwy Swyddogion Canlyniadau – efallai bod un arall ym mis Rhagfyr.
- Adolygiad llawn o reolau a chanllawiau'r etholiadau.
- Datblygu hyfforddiant/briff strwythuredig ar gyfer ymgeiswyr a'i gynnal mewn lleoliad pwrpasol, nid y brif neuadd.
- Dylid gwahaniaethu perthynas y Swyddog Canlyniadau â'r Pwyllgor Etholiadau – dylid amlygu'r ffaith mai'r pwyllgor etholiadau sy'n gyfrifol am rediad bob dydd yr etholiadau a'r swyddog canlyniadau sy'n gyfrifol am sicrhau bod dyfarniadau ac apeliadau yn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Dylai Staff ddatblygu amserlen ar gyfer yr etholiadau (2013/14) a'i roi i'r pwyllgor etholiadau iddynt ei gadarnhau.
- Datblygu cynllun etholiadol yn cynnwys pob agwedd – marchnata, strategaeth gyfathrebu, hyfforddiant ymgeiswyr, gwerthuso, dyddiadau, gosod targedau (nifer yr ymgeiswyr, nifer pleidleisiau).
- Adolygiad llawn o'r etholiadau a sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael ei arolygu er mwyn cael adborth o'u profiadau yn yr etholiadau.

Diolchodd JK i Emily am ei adroddiad a dywedodd bod yr Undeb yn derbyn yr hyn a ddarganfuwyd. Ond ar y llaw arall, fe eglurodd nad oedd Rheolwr Gwasanaethau Aelodaeth neu unrhyw aelod o staff arall â phrofiad o redeg etholiadau ar gael yn ystod cyfnod yr ailstrwythuro. Ers hynny, penodwyd Andy Morwood, sy'n brofiadol tu hwnt mewn rhedeg etholiadau swyddogion. Un o'i DdPA fydd ycmhwilio ac ailwampio'r Broses Etholiadol presennol. Hyderai na fyddai'r materion a godwyd eleni yn codi eto.

Hefyd, fe ddarparodd Emily adroddiad i'r Bwrdd mewn perthynas i rôl y Llywydd yn ystod y broses etholiadol ac yn enwedig defnydd answyddogol o'r Cyfrif Arlywyddol tra'i fod wedi'i wahardd. Mynegodd yr Ymddiriedolwyr eu diysytrwch ynglŷn â'r weithred hon a gofyn i BM, JL a IRE adael yr ystafell tra'u bod yn trafod y mater ymhellach.

Ar ôl trafodaeth, yn dilyn cymal 57 o'r cyfansoddiad, cytunwyd i ddechrau proses o ystyried cael gwared o BM a JL fel Swyddogion Ymddiriedolwyr.
Cytunwyd - RD, JJ, CLJ, CT, LD

Cytunwyd hefyd y byddai datganiad i'r wasg yn cael ei greu gan JG ar ran y Bwrdd er mwyn egluro i'r Myfyrwyr beth sydd wedi digwydd hyd yma. Byddai hyn yn cael ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr cyn cael ei ryddhau.
Gweithredu - JG

Cytunwyd y byddai JG yn archwilio i gyfraniad honedig yr aelod o staff, ac yn adrodd yn ôl i'r Ymddiriedolwyr.
Gweithredu - JG

Cytunodd y Bwrdd bod pob trafodaeth wedi bod yn agored ac yn deg, a bod pawb a oedd yn bresennol wedi cytuno â'r camau gweithredol. Ar yr adeg hon, cytunwyd y byddai RD a JG yn rhoi ar wybod i BM, JL a IRE beth yw penderfyniad y Bwrdd.

Ar yr adeg hon, cytunodd y Bwrdd y byddai unrhyw eitem arall ar yr agenda yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Ymddiriedolwyr nesaf.

Mae dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.